**Papur gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Cymru**

# Cynllun Menter Gwledig

## CYFLWYNIAD:

**Gwelodd 1999 y Cynllun Menter yn dechrau ar ail gyfnod o gefnogaeth ariannol, ac mae bellach yn ei bedwaredd blwyddyn o fodolaeth.**

**Unwaith eto, mae’r diwydiant amaethyddol yn wynebu problemau, mae hyn yn pwysleisio’r pwysigrwydd sydd i CFfI gynnig cefnogaeth a chymorth i aelodau mewn perthynas i fyd busnes a’r dewisiadau sydd ganddynt er mwyn eu dyfodol.**

## NAWDD A CHEFNOGAETH:

Ariannir y Cynllun yn rhannol gan y canlynol:

- Y Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF)
- Asiantaeth Ffermio a Cadwraeth Wledig (AFfChW)
- Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)
- Banc National Westminster

## GRANTIAU A RODDWYD:

Yn dilyn adolygiad, fe benderfynwyd dynodi’r gronfa grant o £6000 fel a ganlyn:

£100 ar gael i’r 30 aelod cyntaf i gyflwyno syniad i’w cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Busnes, efallai y bydd hyn yn newid yn 2001 - £200 i’r 15 cyntaf.

Ar lefel Cymru, rhoddir grant o £1500* i’r syniad busnes mwyaf addewidiol (gyda £250 yn mynd i ffederasiwn sirol yr enillydd i annog cydweithrediad y siroedd i hybu’r Cynllun).

Cyflwynir dau grant pellach o £750* a £500* i ddau arall. Cyhoeddir y grantiau yn y Ffair Aeaf ar Rhagfyr 5ed 2000.

Gall pob unigolyn dderbyn pecyn ariannol arbennig wedi ei noddi gan NatWest (*pe dymunent*)

** Er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei fuddsoddi yn y busnes, mae cysylltiad yn parhau gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus i weld y busnes yn datblygu.*

## CANLLAWIAU:

Mae'r Cynllun ar agor i pob aelod a chyn aelod o Ffermwr Ifanc yng Nghymru, rhwng 18 – 31 mlwydd oed. Mae enillwyr unrhyw un o gystadleathau CFfI Cymru yn rhydd i ymgeisio. Gall ymgeiswyr fod yn unigolion neu'n grwpiau.

Fel yn '97, '98 a '99, croesawir unrhyw syniadau busnes, gyda phwyslais ar ddatblygiad y sectorau canlynol:

- Datblygu marchnad i gynnyrch lleol
- Twristiaeth fferm
- Cyflogaeth a busnesau oddi ar y fferm
- Syniadau technegol newydd i ffermydd
- Busnesau a all gynorthwyo i gynnal ac elwa'r amgylchedd
- Prynu mewnbynau fferm fel grwp

## GWERTHUSIAD:

Cryfderau'r Cynllun:

- Cynnig cefnogaeth gadarn i aelodau archwilio gwahanol syniadau
- Yn cynnig cyfle i aelodau ddatblygu sgiliau a hyder i gysylltu ag asiantaethau gan wella'u sgiliau cyfathrebu
- Gobeithio y bydd y Cynllun yn ysbrydoli aelodau i fentro a datblygu syniadau busnes yn y dyfodol
- Mae rhwydwaith gref yn bodoli i gynorthwyo aelodau gan gynnwys; Menter a Busnes, Cyswllt Busnes, a Prince's Trust – Busnes yn ogystal â'r noddwyr.

Gwendidau'r Cynllun:

- Mae'r Cynllun yn dibynnu ar gyswllt yn cael ei ffurfio rhwng yr aelodau sydd â syniadau â'r staff er mwyn i'r system gefnogi angenrheidiol ddechrau
- Nid yw'r rhwydwaith cyngor busnes yn gyson bob amser, er meant yn dechrau dod at ei gilydd i gefnogi'r Cynllun mewn ffordd synhwyrol
- Mae angen mwy o gefnogaeth wrth i'r busnes ddatblygu, galwadau dilynol gan y rhwydwaith cyngor busnes neu fentora gan unigolion sydd yn llwyddiannus yn y maes